

## EVANS, ROBERT ('Cybi'; 1871 - 1956) bardd, llenor a llyfrwerthwr

**Enw:** Robert Evans  
**Ffugenw:** Cybi  
**Dyddiad geni:** 1871  
**Dyddiad marw:** 1956  
**Rhiant:** Mary Evans (née Roberts)  
**Rhiant:** Thomas Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd, llenor a llyfrwerthwr  
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** Colin Alistair Gresham

Ganwyd 27 Tachwedd 1871 yn Elusendy, Llangybi, Sir Gaernarfon, yn fab i Thomas a Mary (ganwyd Roberts) Evans (gwas fferm oedd y tad) a bu iddynt saith o blant. Addysgwyd ef yn ysgol y cyngor, Llangybi, ac wedi bod yn gweini ffermydd Eifionydd bu yn llythyrgludydd yn yr ardal am y rhan fwyaf o'i oes. Un o'i gyd-bostmyn oedd William Hugh Williams, 'Cae'r Go'. Yr oedd hefyd yn gwerthu 'llyfrau o bob math, prin a gwerthfawr, hen a newydd', a chanddo stondin yn Neuadd y Farchnad, Pwllheli, bob dydd Mercher. Cynhyrnodd gryn lawer o farddoniaeth, yn neilltuo awdlau, marwnadau ac englynion mynwentol. Nid oes mynwent yn Eifionydd nad oes yno englyn neu doddaid o'i waith. Cyhoeddodd *Odlau Eifion* (1908), *Awdl 'Bwlch Aberglaslyn'* (1910), a *Gwaith barddonol Cybi* (1912). Bu'n cystadlu llawer mewn eisteddfodau lleol, taleithiol a chenedlaethol, ac enillodd nifer o wobrau, yn gadeiriau a choronau. Ei arwyr oedd Beirdd Eifionydd a gwnaeth gymwynas fawr drwy gyhoeddi eu gwaith, sef *Lloffion yr ardd*, *barddoniaeth anghyhoeddedig Robert ap Gwilym Ddu* (1911), a *Beirdd gwerin Eifionydd a'u gwaith* (1914). Bu hefyd yn hanesydd lleol a chyhoeddodd *Ardal y cewri* (1907), *Cymeriadau hynod sir Gaernarfon* (1923), 'Cae'r Go' *William Hugh Williams, Yr Arloeswr Sol-ffa* (1935), a *John Jones (Myrddin Fardd)* (1945). Hefyd fe gyhoeddodd amryw lyfrynau a phamffledau, fel *Neges y plant* (1909) a *Llawlyfr o farddoniaeth i blant* (1911). Yr oedd yn byw ym Mryn Eithin, Llangybi. Bu farw 16 Hydref 1956 yn ysbytu Pwllheli a chladdwyd ef ym mynwent Capel Helyg, Llangybi.

### Awdur

Colin Alistair Gresham, (1913 - 1989)

### Ffynonellau

Gwybodaeth gan Emrys Jones, Cricieth

ac adnabyddiaeth bersonol

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Evans

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44070319

Wikidata: Q18535612

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

#### Arddull APA

x

Gresham, C. A., (1997). EVANS, ROBERT ('Cybi'; 1871 - 1956) bardd, llenor a llyfrwerthwr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-EVAN-ROB-1871>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government